| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR ARDAL DWYFOR** |
| **DYDDIAD:** | 26 Mawrth 2012 |
| **TEITL/MAES:** | Tir ar Barc Busnes Nefyn |
| **ARGYMHELLIAD:** | Gwerthu Tir |
| **AWDUR:** | **Rheolwr Eiddo Corfforaethol** |

## 1.0 CEFNDIR

1.1 Yng nghyfarfod y Pwyllgor Ardal gynhalwyd ar 21 Rhagfyr 2009, penderfynwyd "**Fod y Cyngor yn gwerthu tir sy'n ymestyn i 5,800 medr sgwâr ym Mharc Busnes Nefyn i'r ymgeisydd,…. ar delerau i'w pennu gan y Rheolwr Eiddo Corfforaethol gyda'r pris heb fod yn llai na phris y farchnad**"

1.2 Yn anffodus nid aeth yr ymgeisydd ymlaen gyda'r pryniant ac mae'r cwmni wedi cadarnhau nad oes ganddynt ddiddordeb pellach yn y safle.

1.3 Mae tir y Parc Busnes wedi cael ei farchnata ers blynyddoedd lawer ac mae nawr cais gan gwmni lleol i brynu'r tir. Nid oes unrhyw gais arall wedi ei dderbyn am y tir hwn ers y penderfyniad blaenorol.

1.4 Yn ddiweddar gwerthwyd safle cyfagos ar gyfer datblygu Gorsaf Dân newydd ar y Parc Busnes, a'r tir dan sylw yw'r safle olaf ym mherchnogaeth y Cyngor ar y stâd.

1.5 Bwriad yr ymgeisydd yw cynhyrchu adeiladau ffrâm bren ar y safle ac mae cyfle nawr felly i sicrhau datblygiad modern arall i'r stad gan sicrhau cyflogaeth a chyfle i gwmni lleol ymestyn. Mae hyn yn unol â gweledigaeth y Cyngor wrth sefydlu'r safle yn wreiddiol.

1.6 Nid oes bwriad i werthu am lai na phris y farchnad

## 2.0 SYLWADAU'R GWASANAETH

**2.1** Yn gefnogol i'r argymhelliad i werthu tir i'r ymgeisydd ar bris y farchnad.

## 3.0 ARGYMHELLIAD

3.1 Bod tir ar y Barc Busnes Nefyn sy'n mesur oddeutu 8,800 medr sgwâr yn cael ei werthu ar delerau i'w pennu gan Rheolwr Eiddo Corfforaethol mewn ymgynghoriaeth â'r Gwasanaeth Datblygu Economi a Chymuned

Tir Nefyn:

### A. Barn yr Aelod Lleol / Views of the Local Member: Cyng. Llinos Mêrks

Yn gwbl gefnogol i'r cais ac yn dymuno'n dda i'r ymgeisydd yn ei fenter newydd. Mae busnesau lleol bach yn haeddu cael pob cefnogaeth i ehangu..

*Fully supports the application and wishes the applicant well in the new venture. Small local businesses deserve every support to expand.*

---

### B. Barn y Swyddogion Statudol / The Views of the Statutory Officers:

#### 1. Prif Weithredwr / Chief Executive:

"Rwy'n cymeradwyo'r argymhelliad" *I support the recommendation*

#### 2. Swyddog Monitro / Monitoring Officer:

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb / *Nothing to add as regards propriety*

#### 3. Prif Swyddog Cyllid / Chief Finance Officer:

"Ar yr amod fod y tir yn cael ei werthu am bris y farchnad, nid oes gennyf wrthwynebiad i'r argymhelliad.
*On condition that the land is sold at market value, I have no objections to the recommendation*".

---

### C. Papurau Cefndir / Background Papers

---

### CH. Goblygiadau Polisi / Policy Implications

---